

TEITL Y TRAETHAWD:

Dydy Islam Shi'a ddim yn cydweddu ag Islam Sunni.

Yn erbyn y gosodiad

- Mae'r ddau'n cael eu cydnabod fel Mwslimiaid – rhai sy'n ymostwng i Allah ac mae hyn yn dod ag undod yn gyffredinol
- Mae'r ddau'n dilyn y credoau a'r ddysgeidiaeth ganolog, e.e. Qur'an, y pileri ac ati ac fel y cyfryw mae'r rhain yn fwy arwyddocaol nag unrhyw wahaniaethau
- Yn ymarferol ychydig iawn o wahaniaethau sydd
- Mae cymaint o wahaniaeth o fewn Islam Sunni, e.e. cyfreit heg, ac sydd rhwng Sunni a Shi'a
- Mae pob Mwslim wedi'i uno gan yr Ummah byd-eang
- Heblaw am Ashura ychydig o bethau eraill arwyddocaol iawn sy'n wahanol.

O blaid y gosodiad

- Mae'r gwahaniaethau yn y gred am Ali yn eithaf arwyddocaol, e.e. gellid gweld y cyfeiriad yn y Shahada fel shirk
- Mae'r arferion, e.e. gweddïau ychwanegol, pererindod ychwanegol, ychwanegiad at y Shahadah ac ati, yn ategu'r farn fod hon yn Islam fwy cyflawn
- Mae gŵyl Ashura yn dyrchafu Hussein, byddai rhai'n gweld hyn fel shirk
- Mae'r ffocws ar ferthyrdod a dioddefaint yn hanfodol i frwydr ysbrydol Islam
- Mae Sunni yn gwrthod yn chwyrn y credoau am anffaeledigrwydd yr Imam
- Mae drysau ijihad yn agored i Shi'a – unwaith eto mae Sunni traddodiadol yn gwrthod hyn yn chwyrn
- Mae Muta, Taqiyya, Imam a Mahdi i gyd yn ychwanegol at gredeaux Islamaidd Sunni.

Dyfyniadau

'Mae'r Shi'a yn credu na fydden nhw wedi cael eu gadael heb unrhyw arweiniad o gwbl ar ôl y Proffwyd olaf. Wrth ddehongli, efallai y byddan nhw'n defnyddio Aql, rhesymu, i raddau mwy nag Imams Sunni, a hynny er mwyn dehongli'r ddysgeidiaeth wreiddiol fel ei bod hi'n cyd-fynd ag anghenion y bobl ar gyfer sefyllfaoedd y byd modern.' (Morar)

'O safbwynt ymarferol, ychydig o wahaniaeth sydd rhwng Shi'a a Sunni o ran cyfraith a chyfreit heg bob dydd ... Mewn gwirionedd, gellid dadlau bod mwy o wahaniaethau - o safbwynt cyfreit heg, o leiaf - rhwng grwpiau Sunni gwahanol nag sydd rhwng Sunni a Shi'a.' (Turner)

'Mae'r Shi'a, plaid Ali, yn adnabyddus fel y sect leiafrifol fwyaf mewn Islam. Camarweiniol braidd yw meddwl am Fwslimiaid heddiw fel dwy sect: Shi'a a Sunni. Mewn gwirionedd, mae'n llawer mwy cymhleth na hynny.' (Morar)

'Mae'n bwysig dweud yma fod y Sunni hefyd yn cofio'r un digwyddiadau â'r Shi'a ar y diwrnod hwn [Ashura], ond eu bod yn gwneud hynny gyda safbwynt gwahanol am yr amgylchiadau'n gysylltiedig â'u marwolaethau a gyda ffordd wahanol o ddeall arwyddocâd y digwyddiadau hyn.' (Gray)

'Mae cofio'r trychineb yn Karbala a'i ail-greu defodol yno'n gonglfaen ffydd, hunaniaeth bersonol a chymunedol, a duwioldeb.' (Esposito)

'Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, petaech chi'n ymweld â mosg Shi'a nodweddiadol a'i gymharu â mosg Sunni, byddech chi'n gweld yr un nodweddion fwy neu lai. Byddai'r gynulleidfa'n gweddïo bron yn union yr un ffordd, gan ddilyn yr un Qur'an Arabeg a chanolbwyntio ar yr un Allah, yr Un Duw, heb unrhyw bartneriaid, eilunod neu gerfluniau. Byddai pob un yn credu mewn barn a bywyd ar ôl marwolaeth, angylion, llyfrau sanctaidd a Phroffwydi.' (Morar)

'Y peth mwyaf pendant sy'n gwahanu'r Shi'a a'r Sunni, fodd bynnag, yw'r wledd fawr o alar, cofio a gwneud iawn, sef Ashura.' (Vali Nasr)

'... rhan bwysig o'r defosiwn yw ymweld â beddrodau a chreirfâu'r Teulu Sanctaidd a'r Imams yn Karbala, Kazimyya, Najaf, Kufa, Qum a Mashad. Mae'r safleoedd sanctaidd hyn yn denu cannoedd o filoedd o bererinion gydol y flwyddyn. Yn hanesyddol, am resymau ariannol ac oherwydd eu bod yn hawdd mynd iddyn nhw, mae'r pererindodau hyn wedi bod yn fwy poblogaidd a chyffredin na'r hajj.' (Esposito)

'Felly byddai hi'n ymddangos bod Islam Shi'a yn fwy negyddol nag Islam Sunni a gallai rhai ddweud bod y canolbwynt ar ddiodeffaint yn gwahaniaethu'n fwy amlwg rhwng y Shi'a a'r Sunni.' (Gray)

'Weithiau mae Salafis yn gwrthod arferion Sufi a Shi'a fel rhai sy'n anghydnaws ag Islam, tra mae rhai Mwslimiaid Sunni yn gwrthod Salafis fel rhai sydd y tu allan i'r gorlan tra mae'r Shi'a yn cael eu hystyried yn rhan o Islam draddodiadol.' (Morar)

'Ali oedd un o gyfeillion agosaf y Proffwyd Muhammad. Mae Mwslimiaid Shi'a yn credu bod Allah wedi ysbrydoli Muhammad i benodi Ali yn olynydd iddo, a bod Ali yn anffaeledig, hynny yw, nad oedd yn gwneud unrhyw bechodau neu gamsyniadau.' (Morar)

Creodd yr hollti rhwng Sunni a Shi'a yn nyddiau cynnar Islam y rhaniad mwyaf yn y grefydd. Wedi dweud hynny, mae Sunni a Shi'a yn cytuno ei bod hi'n hollol dderbyniol iddyn nhw ymuno â'i gilydd a gweddïo, defnyddio mosgiau ei gilydd, ac maen nhw wedi gwneud hynny drwy'r canrifoedd.' (Morar)

'Mae Shi'a yn credu bod gan y Proffwyd rinweddau ysbrydol arbennig, ei fod yn ddifrycheulyd o bechod, a'i fod yn gallu treiddio i ystyr gudd dysgeidiaeth grefyddol. At hynny mae Shi'as yn credu bod y rhinweddau ysbrydol arbennig hyn gan Ali a'i ddisgynyddion hefyd ... Roedden nhw'n gallu deall a dehongli ystyr fewnol Islam.' (Vali Nasr)